O F F E R Y N N A U S T A T U D O L
C Y M R U

2020 Rhif 598 (Cy. 137)

TRAFFIG FFYRDD, CYMRU

Gorchymyn Cefnffordd yr A55 (Cyffordd 7 (Cyfnewidfa Cefn Du) i Gyffordd 8A (Carreg Brân), Ynys Môn) (Gwahardd Cerbydau, Beicwyr a Cherddwyr Dros Dro) 2020

Gwnaed	*16 Mehefin 2020*
Yn dod i rym	*19 Mehefin 2020*

Mae Gweinidogion Cymru, sef yr awdurdod traffig ar gyfer y darn perthnasol o gefnffordd yr A55, wedi eu bodloni y dylid gwahardd traffig ar ddarnau penodedig o'r gefnffordd oherwydd gwaith y bwriedir ei wneud ar y ffordd neu gerllaw iddi.

Mae Gweinidogion Cymru, felly, drwy arfer y pwerau a roddir iddynt gan adran 14(1) a (4) o Ddeddf Rheoleiddio Traffig Ffyrdd 1984(**1**), yn gwneud y Gorchymyn hwn.

Enwi, Cychwyn a Dehongli

1. Enw'r Gorchymyn hwn yw Gorchymyn Cefnffordd yr A55 (Cyffordd 7 (Cyfnewidfa Cefn Du) i Gyffordd 8A (Carreg Brân), Ynys Môn) (Gwahardd Cerbydau, Beicwyr a Cherddwyr Dros Dro) 2020 a daw i rym ar 19 Mehefin 2020.

2. Yn y Gorchymyn hwn—

ystyr "cyfnod y gwaith" ("*works period*") yw cyfnodau ysbeidiol sy'n dechrau am 19:00 o'r gloch ar 19 Mehefin 2020 ac sy'n dod i ben pan

(**1**) 1984 p. 27; amnewidiwyd adran 14 gan adran 1(1) o Ddeddf Traffig Ffyrdd (Cyfyngiadau Dros Dro) 1991 (p. 26) ac Atodlen 1 iddi. Yn rhinwedd O.S. 1999/672, ac adran 162 o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006 (p. 32), a pharagraff 30 o Atodlen 11 iddi, mae'r pwerau hyn yn arferadwy bellach gan Weinidogion Cymru o ran Cymru.

gaiff yr arwyddion traffig dros dro ar gyfer pob cyfnod gwaith eu symud ymaith;

ystyr "y gefnffordd" ("*the trunk road*") yw Cefnffordd yr A55 Llundain i Gaergybi.

Gwaharddiadau

3. Ni chaiff neb, yn ystod cyfnod y gwaith, yrru unrhyw gerbyd ar naill ai cerbytffordd tua'r gorllewin neu gerbytffordd tua'r dwyrain y darn o'r gefnffordd a bennir yn Atodlen 1 i'r Gorchymyn hwn.

4. Tra bo traffig yn cael ei wahardd gan erthygl 3 rhag symud ar gerbytffordd tua'r dwyrain y darn o'r gefnffordd a bennir yn Atodlen 1 ond, yn unol ag erthygl 8, nad yw'n cael ei wahardd rhag symud ar y gerbytffordd tua'r gorllewin, ni chaiff neb, yn ystod cyfnod y gwaith, yrru unrhyw gerbyd ar lôn allanol cerbytffordd tua'r gorllewin y darn o'r gefnffordd i unrhyw gyfeiriad ac eithrio tua'r dwyrain.

5. Tra bo traffig yn cael ei wahardd gan erthygl 3 rhag symud ar gerbytffordd tua'r gorllewin y darn o'r gefnffordd a bennir yn Atodlen 1, ond, yn unol ag erthygl 8, nad yw'n cael ei wahardd rhag symud ar y gerbytffordd tua'r dwyrain, ni chaiff neb yrru unrhyw gerbyd ar lôn allanol cerbytffordd tua'r dwyrain y darn o'r gefnffordd i unrhyw gyfeiriad ac eithrio tua'r gorllewin.

6. Ni chaiff neb, yn ystod cyfnod y gwaith, yrru unrhyw gerbyd sy'n 3.2 metr o led neu'n lletach ar y darn o'r gefnffordd a bennir yn Atodlen 1 i'r Gorchymyn hwn.

7. Ni chaiff neb, yn ystod cyfnod y gwaith, yrru unrhyw gerbyd ar y darnau o'r gefnffordd a bennir yn Atodlen 2 i'r Gorchymyn hwn.

8. Ni chaiff neb, yn ystod cyfnod y gwaith, reidio unrhyw feic pedal ar y darnau o'r gefnffordd a bennir yn Atodlenni 2 a 3 i'r Gorchymyn hwn.

9. Ni chaiff neb, yn ystod cyfnod y gwaith, gerdded ar y darnau o'r gefnffordd a bennir yn Atodlenni 2 a 3 i'r Gorchymyn hwn.

Cymhwyso

10. Nid yw'r gwaharddiadau yn erthyglau 3, 4, 5, 6, 7, 8 a 9 yn gymwys ond ar yr adegau hynny ac i'r graddau hynny y bydd arwyddion traffig yn eu dangos.

Cyfnod Para'r Gorchymyn hwn

11. Bydd y Gorchymyn hwn yn para am 18 mis ar y mwyaf.

Llofnodwyd o dan awdurdod Gweinidog yr Economi, Trafnidiaeth a Gogledd Cymru, un o Weinidogion Cymru.

Dyddiedig 16 Mehefin 2020

Nicci Hunter
Arweinydd y Tîm Busnes
Llywodraeth Cymru

ATODLEN 1
Gwrthlif a Gwahardd Cerbydau Llydan (dros 3.2 metr) Dros Dro

Y darn o'r gefnffordd sy'n ymestyn o bwynt 600 metr i'r dwyrain o drosbont Capel Pensarn hyd at bwynt 1.4 o gilometrau i'r gorllewin o Gyffordd 8 (Ael y Bowl).

ATODLEN 2
Gwahardd Cerbydau, Beicwyr a Cherddwyr Dros Dro

1. Y darn o'r ffyrdd ymadael ac ymuno tua'r dwyrain a thua'r gorllewin wrth Gyffordd 7 (Cyfnewidfa Cefn Du).

2. Y darn o'r ffordd ymadael tua'r gorllewin wrth Gyffordd 7A.

3. Y darn o'r gefnffordd sy'n ymestyn o bwynt 600 metr i'r dwyrain o drosbont Capel Pensarn hyd at bwynt 1.4 o gilometrau i'r gorllewin o Gyffordd 8 (Ael y Bowl).

ATODLEN 3
Gwahardd Beicwyr a Cherddwyr Dros Dro

Y darn o'r gefnffordd sy'n ymestyn o bwynt 380 o fetrau i'r dwyrain o Gyffordd 7 (Cyfnewidfa Cefn Du) hyd at bwynt 280 o fetrau i'r dwyrain o danbont Cyffordd 8A (Carreg Brân).